Helpwch i Lunio Dyfodol Achub Milgwn Cymru

Mae **Achub Milgwn Cymru** (GRW), sef elusen fwyaf blaenllaw'r wlad ar gyfer achub ac ailgartrefu milgwn a chŵn potsiwr, yn dechrau cyfnod trawsnewidiol. Yn dilyn yr ymgyrch lwyddiannus i wahardd rasio milgwn yng Nghymru, rydym bellach yn canolbwyntio ar ofalu am y mewnlifiad o gŵn mewn angen wrth sefydlu blaenoriaethau hirdymor newydd.

Y Cyfle

Rydym yn chwilio am **ddau unigolyn angerddol o ogledd Cymru** i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynrychioli ein cymunedau yn effeithiol, **rhaid i o leiaf un ymgeisydd llwyddiannus fod yn siaradwr Cymraeg.**

Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn darparu'r oruchwyliaeth strategol a'r stiwardiaeth ariannol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr elusen yn parhau i gydymffurfio â'r gyfraith ac yn cael ei rheoli'n dda er lles y cŵn yn ein gofal.

Prif Gyfrifoldebau

- **Goruchwyliaeth Strategol:** Diffinio nodau sefydliadol, gosod targedau, a gwerthuso perfformiad.
- **Llywodraethu a Chydymffurfiaeth:** Sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
- **Stiwardiaeth Ariannol:** Diogelu asedau a sicrhau iechyd ariannol hirdymor.
- **Eiriolaeth** Gwasanaethu fel llysgennad dros genhadaeth GRW, yn enwedig yng ngogledd Cymru.

Pwy rydym yn chwilio amdano?

Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr ar achub anifeiliaid, ond rhaid i chi feddu ar galon dros les anifeiliaid a phen dros lywodraethu.

- **Gofynion:** Gweledigaeth strategol, barn gadarn, cyfathrebu rhagorol, ac ysbryd cydweithredol.
- **Ymrwymiad Amser:** O leiaf **6–8 awr y mis**, yn bennaf gyda'r nos a phenwythnosau.
- **Arbenigedd a Ddymunir:** Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ymgeiswyr sydd â chefndiroedd mewn **Cyfraith, TG, Busnes Masnachol, neu Fenter Gymdeithasol.**

Pam ymuno â ni?

Mae hwn yn gyfle unigryw i ddefnyddio eich sgiliau proffesiynol i wneud gwahaniaeth go iawn i anifeiliaid agored i niwed wrth ennill profiad gwerthfawr ar lefel bwrdd yn y trydydd sector.

Oes gennych chi ddiddordeb?

Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais, cysylltwch ag
info@greyhoundrescuewales.co.uk